Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru
Interpret Wales

Gwanwyn Spring
2008 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

9

Yn y rhifyn hwn **In this issue**

Dehongli dwyieithog ar safleoedd Cadw
Bilingual interpretation at Cadw Sites

Yr olygfa o'r ochr draw
Telling stories in a bilingual society

Canolfan Hywel Dda
Hywel Dda Centre

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES
Rhifyn 9 Gwanwyn 2008
Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:
Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.

Cynnwys

Dehongli dwyieithog ar safleoedd Cadw **4**
Diane Williams

Yr olygfa o'r ochr draw **8**
Lynne Denman

Gadewch i blant bychain siarad (Gaeleg) â mi **10**
Michael Hamish Glen

Dwyieithrwydd yng Nghymru **14**
Sian Wynn Lloyd

Gardd a chanolfan ddehongli Hywel Dda **16**
Ken Rees

'Ar goll mewn Cyfieithiad' **19**

Newyddion a barn **20**

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
ffôn: 01600 860779

Llun ar y clawr blaen: *Peniarth 28*, trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru / Canolfan Hywel Dda / Peter Lord

"Fel rheol mae'r hyn sy'n cael ei ysgrifennu heb ymdrech yn cael ei ddarllen heb fawr o bleser"

Mae'r dyfyniad hwn gan Samuel Johnson (1709 - 1784) yn ymddangos yn arbennig o berthnasol heddiw wrth i ni ymdrechu i ganfod y geiriau iawn i ddenu ac i gyffroi. Ond mae'r dasg yn un llawer mwy heriol (a chyffrous!) pan mae angen i ni ganfod y geiriau cywir mewn dwy iaith. Dehongli mewn dwy iaith/dwyieithog, yw canolbwynt y rhifyn hwn o Dehongli Cymru.

Llinyn cyffredin sy'n rhedeg drwy'r rhifyn hwn yw nad yw'r agwedd ddwyieithog gyfredinol yn gwneud cyfiawnder â'r gwaith mae dehonglwyr am ei gyflawni. Mae angen i ni wthio'r ffiniau. Enillwyd statws cyfartal i'r Gymraeg. Bellach nid yw cyfieithu blociau o destun cyflinellol (dim ond esgus cefnogi'r Ddeddf laith yw hyn) yn ddigon da. Mae gennym y rhyddid i arbrofi - i ganfod gwell ffyrdd o gyfathrebu ac i dangos bod Cymraeg yn rhan o fywyd bob dydd. Fel mae ein cydweithiwr i'r gogledd i'r ffin, Michael Hamish Glen, yn ysgrifennu, mae dehongli dwyieithog yn golygu llawer mwy na rhoi tic ym mlwch cywirdeb politicaidd.

Fel un di-Gymraeg o Sir Fynwy, rwy'n un o'r rhai hynny a fyddai ar ei hennill o agwedd newydd. Nid yw cyfieithiadau dwyieithog cyflinellol yn ychwanegu dim -mewn gwirionedd nid ydynt ond yn atgyfnerthu'r gwahaniaeth rhwng y ddwy iaith. Ond trwy gynnwys geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn fersiynau Saesneg o ddeunyddiau deongliadol mae'n bosibl creu ymwybyddiaeth newydd a gwerthfawrogiad o'r Gymraeg. Mae angen i ni gynorthwyo pobl i weld pethau 'o'r ochr arall', sef y modd mae Lynne Denman yn disgrifio ei dull hi o gyflwyno storïau mewn cymdeithas ddwyieithog. Ac ambell waith nid geiriau, ond celf, sy'n gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol.

Dengys ymchwil diweddar ar gyfer Cadw bod yn well gan bobl ddeunydd deongliadol wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg, yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg, sy'n creu heriau newydd - cael gafael ar awduron arbenigol sy'n gallu ysgrifennu'n dda yn Gymraeg ar bynciau arbenigol. Yn y cyfnod byr, o leiaf, mae'n annhebygol y bydd yr holl ddeunydd gwreiddiol yn cael ei ysgrifennu yn y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg. Felly mae angen i ni ganolbwyntio ar ein perthynas â chyfieithwyr ac â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Allwn i friffio'r cyfieithwyr yn fwy effeithiol ynglŷn â'r negeseuon rydym am eu trosglwyddo? A allwn ni ddarparu hyfforddiant ar gyfer cyfieithwyr sy'n gweithio yn y sector ddehongli? A lle bynnag y parheir i ddefnyddio cyfieithiadau cyflinellol a allwn ni annog mwy o ryddid i gyfieithwyr i drosglwyddo ein 'neges' yn hytrach na chyfieithu gair am air?

Derbyniwch y rhifyn hwn yn rhagflas ar gyfer Gweithdy Gwanwyn 'Interpret Wales' ar Ddehongli Dwyieithrwydd a fydd yn cael ei gynnal ym mis Mai yn yr Oriel Newydd yn Amgueddfa Werin Cymru, San Ffagan. Rwy'n gobeithio y gallwch ymuno â ni ac edrychaf ymlaen at eich gweld chi yno!

Rhaid diolch i bawb sy'n cyfrannu, sy'n dangos bod Cymru'n wlad wirioneddol ddwyieithog â'r angerdd a'r dymuniad i rannu ein storïau a'u hadrodd yn y modd gorau ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Diolch hefyd i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am ddarparu gwasanaeth cyfieithu unwaith yn rhagor.

Ruth Waycott
Golygydd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

© Crown copyright (2008) Visit Wales

s written effort is al read pleasure

"What is written without effort is in general read without pleasure"

This quote from Samuel Johnson (1709 - 1784) seems particularly relevant today as we strive to find the right words to engage and excite. But how much more challenging (and exciting!) the task is when we need to find the right words in two languages. Bilingual interpretation is the focus of this edition of Interpret Wales.

A common thread running through this issue is that a blanket bilingual approach doesn't do justice to the work interpreters want to do. We need to be pushing the boundaries. Equal status for the Welsh language has been won. Parallel translation of blocks of text (paying lip service to the Welsh Language Act) is no longer good enough. We have the freedom to experiment - to find more effective ways of communicating and demonstrating that Welsh is part of daily life. As our colleague from north of the border Michael Hamish Glen writes, bilingual interpretation is about much more than ticking the box of political correctness.

As a non-Welsh speaker from Monmouthshire, I am one of the people who would benefit from a new approach. Straight parallel translations add nothing - in fact they reinforce the separation between the languages. But by incorporating Welsh words and phrases into English language versions of interpretive materials a new awareness and appreciation of the Welsh language is made possible. We need to *help* people see things 'from the other side', which is how Lynne Denman describes her approach to communicating stories in a bilingual society. And sometimes it's not words, but art which can communicate more effectively.

Recent research for Cadw shows a preference for interpretive materials to be written in Welsh, specifically for Welsh speaking and Welsh learning audiences, which presents new challenges - finding expert authors who can write well in Welsh about specialist subjects. In the short term at least, it's unlikely that all original material will be written in both Welsh and English. So we need to focus on our relationship with translators and the Association of Welsh Translators. Can we brief translators more effectively about the messages we want to communicate? Can we provide training for translators who work in the interpretation sector? And where parallel translations continue to be used can we encourage greater freedom for translators to convey our 'message', rather than just translating word-for-word?

Take this issue as a taster for Interpret Wales' Spring Workshop on Bilingual Interpretation which will be held in May at the new Oriel Gallery at St Fagans: National History Museum. I hope you can join us and look forward to seeing you there!

Thanks must go to all our contributors, who demonstrate that Wales is a truly bilingual country with a passion and shared desire to tell our stories in the best way for Welsh and English speakers. Thanks also to Forestry Commission Wales for providing translation services again.

Ruth Waycott
Editor

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU
Issue 9 Spring 2008
Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the agencies whose logos appear below.

Contents

Bilingual Interpretation at Cadw Sites 6
Diane Williams

Telling stories in a bilingual society 9
Lynne Denman

Suffer the little children to speak (Gaelic) unto me 12
Michael Hamish Glen

Bilingualism in Wales 15
Sian Wynn Lloyd

The Hywel Dda Garden and Interpretive Centre 17
Ken Rees

'Lost in Translation' 19

News & views 20

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
tel: 01600 860779

Front Cover: *Peniarth 28*, by permission of The National Library of Wales / Hywel Dda Centre / Peter Lord

Technoleg ‘blue tooth’, llwybrau ditectif ac acenion lleol – dyma rai o’r syniadau y mae Cadw yn arbrofi â hwy i sicrhau eu bod yn darparu dehongli dwyieithog o’r radd flaenaf. Mae ***Diane Williams*** yn ein tywys drwy ymchwil a gweithgareddau diweddar Cadw.

Dehongli dwyieithog ar safleoedd Cadw

Ers sefydlu Cadw ym 1984, rydym wedi bod yn cynhyrchu ein paneli dehongli a’n harddangosfeydd yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae ein teithiau clywedol hefyd ar gael yn y ddwy iaith. Maent wedi cael eu darparu ar gyfer ymwelwyr o Gymru, ond maent hefyd yn cyflwyno’r ymwelydd di-Gymraeg i’n hiaith hynafol – un o’r nifer o nodweddion sy’n gwneud ein gwlad ni’n wahanol i Loegr, yr Alban ac Iwerddon ac, yn wir, i unman arall yn Ewrop a thu hwnt.

Ond mae dehongli dwyieithog yn golygu mwy na chyfieithu testunau Saesneg i’r Gymraeg; mae’n ffordd o feddwl ac ysgrifennu am hanes Cymru – o osod pobl a lleoedd mewn cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol sy’n wirioneddol berthnasol i Gymru heddiw. Am y rheswm hwn, mae Cadw wedi penderfynu adolygu nid yn unig ei ddefnydd o’r Gymraeg a’r Saesneg ond hefyd y storïau y byddwn yn eu hadrodd i’r rhai sy’n ymweld â’r safleoedd yn ein gofal.

Byddwn yn ymgymryd â’n hadolygiad



Castell Conwy ble mae Cadw yn peilota dulliau deongliadol dwyieithog ochr yn ochr â thechnegau confensiynol.
Conwy Castle where Cadw are piloting new bilingual interpretive methods alongside conventional techniques.

mewn sawl ffordd wahanol. Yn gyntaf, mae gennym ein prosiect cynllunio dehongli parhaus, sydd wedi dangos mai sylfeini cenedl yw ein thema gyffredin. Hynny yw, mae safleoedd Cadw yn cynrychioli'r 'blociau adeiladu' yn hanes Cymru a'n hunaniaeth fel cenedl. Mae hyn yn ei dro yn cael ei gefnogi gan ddatganiadau sylweddol ar gyfer pob un o'n safleoedd, sy'n dweud wrthym beth sy'n eu gwneud yn arbennig. Mae proffiliau cymunedol yn dangos y gwerthoedd y mae pobl yn eu cysylltu â'r safleoedd heddiw, fel y gallwn gyda'n gilydd nodi'r ffordd orau o ddehongli gorffennol Cymru i bawb.

Sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol? Eleni, rydym yn rhagbrofi gyda dau brosiect dehongli dwyieithog newydd nad ydynt yn seiliedig ar ddulliau arddangos traddodiadol neu destun ar baneli. Mae'r storïau a ddehonglir wedi cael eu dewis drwy'r broses gynllunio dehongli ac maent yn defnyddio dulliau deallusol hawdd i ddenu plant, teuluoedd ac ysgolion yn y ddwy iaith.

Yng Nghastell Conwy – a gysylltir fel rheol â'r Brenin Edward I a chwymp y tywysogion Cymreig – rydym yn cydweithio â Bremner & Orr i ddod o hyd i ffordd wahanol o adrodd hanes ymosod ac amddiffyn. Drwy gymryd digwyddiadau 1401, pan gipiodd cefnogwyr Owain Glyn Dŵr y castell yn dilyn ymosodiad beiddgar, mae Bremner & Orr wedi dyfeisio taith ddirectif i ddarganfod pwy a adawodd y Cymry i mewn i'r castell, sut a pham. Gan ddefnyddio llyfr 'comig', sganiwr coch 'hud' a phaneli tystiolaeth sydd wedi'u gosod mewn mannau strategol drwy'r castell, bydd plant rhwng 8 a 12 oed yn gallu defnyddio'r cliwiau i ddod o hyd i'r ateb. Gellir cael gwybodaeth dros y ffôn ar ddiwedd y daith a fydd yn egluro ffynonellau'r dystiolaeth: beth sy'n ffaith a beth sy'n ddyfalu, a thrwy hyn fe anogir y cyfranogwyr i feddwl am ddilysrwydd data hanesyddol a sut i'w ddefnyddio. Bydd y gweithgaredd hwn nid yn unig yn galluogi plant ac oedolion i weithio gyda'i gilydd – yn y Gymraeg ac/neu yn y Saesneg – ond bydd hefyd yn tynnu sylw at ddigwyddiad unigryw o Gymreig yn hanes y castell.

Yng Nghastell Rhaglan, rydym yn cydweithio â'r un tîm i gyflwyno storïau clywedol am fywyd yn y castell yn ystod gwarchae 1646 yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, gan ddefnyddio technoleg Bluetooth sy'n cysylltu'n uniongyrchol â ffôn symudol yr ymwelydd. Yma, bydd y cyfuniad o dechnoleg arloesol a'r dystiolaeth yn y Tŵr Mawr ei hun yn dangos i'r ymwelydd pam y mae'r castell yn edrych fel y mae heddiw. Bydd tair stori, un ohonynt yn cael ei hadrodd gan un o filwyr y Senedd, y llall yn cael ei hadrodd drwy gyfrwng sgwrs rhwng dau was, a'r olaf gan foneddiges y castell, yn dangos gwahanol ymagweddau ac ymatebion i'r un digwyddiad. Gwnaed ymchwil manwl i'r storïau hyn er mwyn sicrhau cywirdeb, ond bydd pob un ohonynt yn cael ei hadrodd mewn iaith ac acenion sy'n briodol i rôl a statws yr unigolion dan sylw. Nid cyfieithiad uniongyrchol o'r Saesneg fydd y fersiwn Gymraeg, ond dehongliad o'r un stori a adroddir gan siaradwr Cymraeg brodorol i roi dilysrwydd ac awdurdod iddi yng ngolwg cynulleidfa Gymraeg ei hiaith. Gobeithiwn y bydd y storïau hyn yn annog ymwelwyr i ymchwilio ymhellach i hanes y castell drwy gyfrwng dehongliadau eraill ar y safle, digwyddiadau, y tywyslyfr a'r wefan. Gobeithiwn hefyd y bydd clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn annog dysgwyr i ehangu eu geirfa ac yn galluogi ymwelwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu ambell ymadrodd.

Mae'n rhy gynnar i ni allu dweud a fydd y prosiectau hyn yn llwyddiant – byddwn yn trafod y broses werthuso mewn rhifynnau dilynol o Dehongli Cymru – ond rydym yn gallu rhannu rhai o'n meddyliau hyd yma:

- Mae'n bwysig chwilio am stori sy'n ymwneud yn benodol â safle arbennig ac y gellir ei defnyddio i annog ymwelwyr i ddysgu am un bennod yn hanes y lle.
- Mae gofyn i storïau adlewyrchu hanes Cymru a phobl Cymru.
- Defnyddiwch dîm amlddisgyblaethol i ddod o hyd i'r storïau, eu dilysu a'u hadrodd.
- Byddwch yn barod i arbrofi gyda deunyddiau papur traddodiadol yn ogystal â thechnoleg arloesol.
- Ysgrifennwch ddeunydd gwreiddiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Tywyslyfrau



Ochr yn ochr â'r gwaith o ddehongli safleoedd, rydym yn ceisio canfod y ffordd orau o gynhyrchu tywyslyfrau yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn ein galluogi i gwrdd â'r ymrwymiad i gynhyrchu tywyslyfrau dwyieithog erbyn 2010, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Rydym yn edrych ar wahanol ddulliau, gan gynnwys llyfrau 'troi drosodd', rhoi'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr, a chynyrchiadau ar wahân yn y ddwy iaith. Yn ogystal â'r ystyriaethau economaidd, rydym yn trafod gyda siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i weld beth yw eu dymuniad, ac mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y byddai'n well ganddynt gael argraffiadau ar wahân yn y ddwy iaith.

Yr hyn sy'n fwy arwyddocaol, fodd bynnag, yw'r galw am i'r testun Cymraeg gael ei ysgrifennu yn y Gymraeg yn hytrach na bod yn gyfieithiad llythrennol o'r Saesneg. Yn well fyth, gellid cael testunau Cymraeg sydd wedi'u hanelu'n benodol at siaradwyr Cymraeg/dysgwyr o ran cynnwys yn ogystal ag iaith. Mae hyn yn gosod yr her o ddod o hyd i awduron arbenigol a all ysgrifennu'n dda yn y Gymraeg am hanes Cymru. Rhaid ystyried hefyd a ddylem gynhyrchu tywyslyfrau dwyieithog ar gyfer ein holl safleoedd ynteu ar gyfer rhai ohonynt yn unig.

Byddem yn falch o glywed gan sefydliadau eraill sut y maent hwy yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd cyffelyb.

Diane Williams yw
Rheolwr Cyhoeddiadau Cadw
Cysylltwch â: diane.williams@wales.gsi.gov.uk

Blue tooth technology, detective trails and local accents are just some of the ideas Cadw are experimenting with to ensure they provide the very best in bilingual interpretation. ***Diane Williams*** guides us through Cadw's recent research and activities.

Bilingual interpretation at Cadw sites

Castell Rhaglan ble mae Cadw yn peilota dulliau deongliadol dwyieithog ochr yn ochr â thechnegau confensiynol.
Raglan Castle where Cadw are piloting new bilingual interpretive methods alongside conventional techniques.



Since the creation of Cadw in 1984, our site interpretation panels and exhibitions have been produced in Welsh and English. Audio tours, too, are available in both languages. Each caters for visitors from Wales but they also introduce the non-Welsh-speaking visitor to our ancient language – one of the many features that make our country different from England, Scotland and Ireland, or indeed anywhere else in Europe and beyond.

But bilingual interpretation is not just about translating English text into Welsh; it is a way of thinking and writing about Welsh history – putting people and places into a social and cultural context that has real resonance for Wales today. And for this reason, Cadw has decided to review not only its use of Welsh and English, but also the stories we tell visitors at the sites in our care.

We are approaching our review in several different ways. First, we have

our on-going interpretation planning project, which has identified our overarching theme as the foundations of a nation. In other words, Cadw sites represent the 'building blocks' in the history of Wales and our identity as a nation. This, in turn, is supported by statements of significance for each of our sites, which tell us what makes them special. Community profiles are identifying the values that people associate with the sites today so that together we can identify how best to interpret Wales's past for everyone.

So how does this translate into practice? This year, we are piloting two new bilingual interpretation projects, which are not based on traditional exhibition or panel text. The chosen stories have been identified through the interpretation planning process and use easy intellectual access to engage children, families and schools in both languages.

At Conwy Castle – usually associated with King Edward I and the downfall of the Welsh princes – we are working with Bremner & Orr to find a different way of telling the story of attack and defence. By taking the events of 1401, when the supporters of Owain Glyn Dŵr stormed the castle during a daring raid, Bremner & Orr have devised a detective trail to identify who let the Welsh into the castle, how and why. Using a comic-style booklet, a 'magic' red scanner, and strategically placed evidence panels around the castle, children aged between 8 and 12 can answer clues to reveal 'whodunit'. A 'debrief' at the end of the trail will explain the sources of evidence: what is fact and what is 'best guess' and thus encourage participants to think about the validity of historical data and how to use it. Not only does the activity allow children and parents to work together – in Welsh and/or English – but it also highlights a uniquely Welsh episode in the history of the castle.

At Raglan Castle, we are working with the same team to deliver audio stories about life at the castle during the Civil War siege of 1646 using Bluetooth technology direct to the visitor's own mobile phone. Here, a combination of innovative technology, and the physical evidence of the ruinous Great Tower, will draw the visitor's attention to why the castle looks as it does today. Three stories, one told by a parliamentarian soldier, one told through a conversation between two servants and one told by the lady of the castle will show different perspectives and reaction to the same event. Each of the stories has been carefully researched for accuracy, but each will be delivered in language and accents appropriate to the role and status of each individual. Translation will not be a direct copy of the English but an interpretation of the same story told by a native Welsh speaker to make it both authentic and authoritative for a Welsh audience. We hope that the stories will encourage visitors to explore the castle's history further through other on-site interpretation, events, the guidebook and the website. We hope too that hearing spoken Welsh will encourage learners to expand their vocabulary and enable non-Welsh speaking visitors to learn a few phrases.

It is too soon to know the success of these projects – we will report on the evaluation process in a future issue of *Dehongli Cymru* – but we can share some of our thinking to date:

- It is important to seek out and use a site-specific story that can be used to engage visitors to learn about one episode in the life of a place.
- Stories need to reflect the history of Wales and Welsh people.
- Use a multi-disciplinary team to identify, validate and tell the stories.
- Be prepared to experiment with traditional paper-based materials as well as innovative technology.
- Write original material in both Welsh and English.



Guidebooks

Running alongside the work on site interpretation, we are exploring how best to produce guidebooks in Welsh and English so that we can meet our commitment to produce bilingual guidebooks by 2010, outlined in the Welsh Language Scheme.

We are looking at several options including flip format books, side-by-side Welsh and English text and separate language editions. Aside from economic considerations, we are talking to Welsh speakers and learners to find out what they want. Early indications suggest that separate language editions are preferable.

Of more significance however is the request that Welsh text is originated in Welsh and not simply a literal translation of an English text. Even better would be texts written in Welsh aimed at a Welsh-speaking / learning audience in terms of content as well as language. This presents the challenge of finding expert authors who can write well in Welsh about the history of Wales. It also begs the question of whether we produce two guidebooks for all or some of our sites.

We would be interested to learn from other organizations how they are approaching similar situations.

Diane Williams is
Publications Manager for Cadw
Contact: diane.williams@wales.gsi.gov.uk



Canolfan y Mileniwm, Caerdydd – barddoniaeth gan Gwyneth Lewis sydd yn datgan amcan y ganolfan gelfyddydol
The evocative words of Gwyneth Lewis proclaim the job of the artist on the front of the Wales Millennium Centre.

© Crown copyright (2008) Visit Wales

Mae'r arlunydd ***Lynne Denman*** yn dadlau fod yna iaith arall gyffredin yng Nghymru, sef iaith celfyddyd, y gellir ei defnyddio fel cyfrwng i adrodd storïau sy'n cyrraedd siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, yn ogystal â siaradwyr ieithoedd eraill.

Yr olygfa o'r ochr draw:

adrodd straeon mewn cymuned ddwyieithog

Mae dehongli treftadaeth yn perthyn i adrodd straeon. Un o amcanion adrodd straeon yw hybu diddordeb mewn hanes a'r pethau rydyn ni'n etifeddu o'n cyndeidiau. Mae'r ddealltwriaeth sydd yn dod trwy'r straeon yn ei thro yn gallu ysgogi arloesedd a newid – yn ein hagweddau a'n bywydau.

Yn fwy na dim arall, mae trysor diwylliant y Cymry yn bodoli yn ein hiaith a'n llenyddiaeth. Mae iaith pobl yn datblygu trwy ddehongli y byd o'n cwmpas ac mae llenyddiaeth cenedl wedyn yn cynnwys gwirionedd ffeithiol a seicolegol am y bobl. Mae'r gwirionedd yma yn unigryw ac mae'n parhau trwy'r oesoedd. Er bod bywyd bob dydd yn newid, mae'r gwirionedd mor wir heddiw ag y bu erioed. Dyma fel rydym yn adnabod ein hunain a'n gilydd.

Dyna paham y mae adrodd straeon yn bwysig i ddiwylliant a bywyd.
Deuthum i fyw i Gymru hanner f'oes yn ôl. Roeddwn i eisiau bod yn rhan gyflawn o'r teulu a'r gymuned, darllen y farddoniaeth, canu'r caneuon a deall ystyr enwau llefydd. Felly roedd yn bwysig i mi ddysgu a siarad Cymraeg.

Dros y blynyddoedd rydw i wedi dod yn fwy cyfarwydd â diwylliant y Cymry. Rydw i'n sylweddoli ac yn gwerthfawrogi ymdrechion mewnfudwyr eraill sy'n dysgu a siarad Cymraeg. I'r sawl sydd ddim, rydw i'n meddwl bod rhan fawr o ddiwylliant a bywyd eu cymuned nhw yn anweledig, neu yn waeth byth, yn ddirgelwch iddynt.

Dyna paham y mae'n bwysig adrodd y straeon yn ddwyieithog.
Mae dehongli yn fwy na chyfieithu. Mae dehongli yn ddisgrifiad o'r un olygfa o safbwynt arall, safbwynt a all gynnwys cyd-destun diwylliannol. Mae cymuned ddwyieithog hefyd yn gymuned dau ddiwylliant. Felly mae'n amlwg bod rhaid adrodd straeon yn yr iaith wreiddiol er mwyn i'r bobl eu deall nhw.

Mewn cymuned ddwyieithog, mae'n rhaid i'r storïwr roi sylw cyfartal i'r ddwy iaith. Dyma enghraifft o gyfieithu o Siapan. Dydy'r cyfieithydd ddim yn siarad Saesneg, felly, er ei fod e wedi cyfieithu'r geiriau, nid oedd yn bosibl iddo ddehongli'r neges.

When passenger of foot heave in sight, tootle the horn. Trumpet him melodiously at first, but if he still obstacles your passage then tootle him with vigour.

Llyfryn cwmni llogi ceir, Tokyo

Mae hiwmor y fersiwn Saesneg yn tanseilio amcan difrifol y neges.

Iaith arall sydd yn gyffredin i bawb.
Mae llun yn werth mil o eiriau. Mae geiriau yn creu lluniau yn y dychymyg. Mae'r celfyddydau yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd effeithiol iawn o adrodd straeon. Mae peintio, cerflunio, cerddoriaeth, ffilmio, barddoni a dawnsio yn ieithoedd synhwyrus sydd yn adrodd stori unigryw wrth bob person. Trwy ddefnyddio'r celfyddydau i adrodd stori mae'n bosibl siarad â chynulleidfa cymysg ei hiaith.

Yn unigryw, ymysg y celfyddydau, mae caneuon a barddoniaeth yn ddibynnol ar eiriau i greu lluniau yn y dychymyg.

Yn ei lyfr 'Soil and Soul' mae Alastair McIntosh yn sôn am farddoni:

'To the bard then, the bare bones of historical fact had to be fleshed out with illustrative meaning. In this way, not just the truth, but the whole truth could be told.'

Yng ngeiriau efocatif Gwyneth Lewis, mae artistiaid yn '*creu gwir fel gwydr o ffwrnais awen*'

Datgan gwirionedd ac ysblander yr olygfa o'r ddwy ochr, dyna yw sialens y storïwr mewn cymuned ddwyieithog.

Mae Lynne yn gyd-gyfarwyddwr, gyda Shelagh Hourahane, o Dehongli Treftadaeth Creu-ad. Mae hi'n ddarlunydd hyfforddedig ac yn Gymrawd o Gymdeithas Dehongli Treftadaeth. Mae hefyd yn canu gyda'r band Ffynnon. Cysylltwch: lynne@creu-ad.co.uk

The view from the other side:

telling stories in a bilingual society

Shelagh Hourahane

Artist ***Lynne Denman*** argues that there is another common language in Wales, the language of art, through which we can tell stories, reaching out to Welsh and English speakers alike, as well as to speakers of other languages.

'Gafrod' yn Nhywyn Niwbwrch (GNG,CCGC) gan Ann Catrin Evans. Gafrod yw'r enw lleol am stycau o wair wedi ei gynaeafu. Mae'r testun 'ffondant' yn rhoi rhai o enwau'r prosesau ac enwau'r bobl oedd yn cynaeafu corswellt y tywod hyd at y 1950au, ar beth sydd nawr yn warchodfa natur, er mwyn gwneud matiau a rhaffau i'w gwerthu ac ar gyfer defnydd lleol. 'Ymdeimlad o Gyrhaeddiad' (CCGC)
'Gafrod' at Newborough Warren (NNR, CCW) by Ann Catrin Evans. Gafrod (goats) is the local name for the stooks of harvested grass. The 'fondant' text gives some of the names of processes and the names of people who harvested the marram grass up until the 1950s on what is now the nature reserve, in order to make mats and ropes for sale and local use. 'A Sense of Arrival' (CCW).

Interpreting and telling our country's stories (adrodd y straeon) whilst paying due respect to all the communities in our bilingual and bi-cultural society (cymuned dwyieithog a dau ddiwylliant) is perhaps the storyteller's greatest challenge. The oldest cultural treasure (trysor) of the Cymry (fellow countrymen) is in our language and literature (iaith a llenyddiaeth), poetry and stories.

Alastair McIntosh, in his book 'Soil and Soul' reflects that poets (beirdd) amplify the truth (gwirionedd) of factual events with illustrative meaning and that it is through this truth that we know ourselves and each other.

This is why storytelling is important for life and culture.

I came to live in Wales half my life (hanner f'oes) ago. I wanted to play a full part in family and community life; reading the poetry (barddoniaeth), singing the songs (caneuon), understanding the meaning of place names (enwau llefydd) so it was really important (pwysig) to me to learn (dysgu) and speak (siarad) Welsh (Cymraeg).

Over the years I have grown more familiar (cyfarwydd) with the culture of Wales. I notice and value the efforts of other incomers who learn and speak Welsh. For those who don't I see that a large part of their community is invisible (anweledig), or worse still (waeth byth), mysterious (ddirgelwch).

This is why it is important to tell stories bilingually.

Another language common to everyone.

The arts (y celfyddydau) use a variety of effective (effeithiol) ways to tell stories. Painting, music, film, sculpture, poetry and dance are all sensual languages which tell a unique story to each person. Use of the arts makes it possible to tell stories to a mixed language audience (cynulleidfa).

The evocative words of Gwyneth Lewis proclaim the job of the artist on the front of the Wales Millennium Centre:
Creu gwir fel gwydr o'r ffwrnais awen' 'Make truth like glass from Inspiration's furnace'

Proclaiming the truth and splendour of the view from both sides is the challenge of the storyteller in a bilingual society.

Lynne Denman is a co-director, with Shelagh Hourahane, of Creu-ad Heritage Interpretation. She is a trained illustrator and Fellow of the Association for Heritage Interpretation and singer with the band Ffynnon. Contact: lynne@creu-ad.co.uk



Shelagh Hourahane

Canolfan Ymwelwyr GNG Ynyslas 'Cysgodion Corswellt y Tywod' gan Mick Petts. Fe ysgrifennwyd y testun gan blant o Borth, gyda chymorth Menna Elfyn a Gillian Clarke. 'Ymdeimlad o Gyrhaeddiad' (CCGC).
Ynyslas NNR Visitor Centre 'Marram Shadows' by Mick Petts. The text was written by children from Borth with the help of Menna Elfyn and Gillian Clarke. 'A Sense of Arrival' (CCW).

Gadewch i blant bychain siarad (Gaeleg) â mi …

Nid mater i Gymru'n unig yw dehongli dwyieithog. Mae ***Michael Hamish Glen***, y dehonglwr o'r Alban, yn egluro sut y mae wedi bod yn arbrofi gyda dulliau newydd o ddefnyddio'r iaith Aeleg a'r Sgoteg!

Yn Singapore, mae nifer o'r arwyddion mewn Tsieinëeg, Maleieg, Tamileg a Saesneg. Fodd bynnag, roedd yr ychydig baneli 'deongliadol' a welais mewn Saesneg yn unig - ynghyd â'r faner 30m o hyd a oedd yn hysbysebu dosbarthiadau gloywi Tsieinëeg i blant bach. Roedd y bobl leol yn bryderus am ddyfodol eu hiaith.

Mae gan y gymuned Aeleg ei hiaith yn yr Alban yr un pryderon. Mae'r plant sy'n mynychu'r *cròileagan* (ysgol feithrin) yn dysgu ac yn siarad *Gàidhlig* ond, megis plant Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, byddant yn ddwyieithog. Pam felly y mae angen dehongli dwyieithog, neu ddehongli sy'n defnyddio'r ddwy iaith?

'Mae'r Aeleg yn rhan annatod o Ucheldiroedd yr Alban, a rhaid iddi fod yn rhan annatod o ddehongli'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol.' Dyma fyrdwn neges Bob Jones o Gomisiwn Coedwigaeth yr Alban pan ofynnodd imi ysgrifennu'r testun ar gyfer paneli i'w defnyddio yng nghadarnle'r iaith. Yn sgil ei brofiad yng Nghymru, penderfynodd beidio â mabwysiadu ymagwedd lwyr ddwyieithog. Roedd yn awyddus i wneud mwy na bod yn wleidyddol gywir; roedd am i ymwelwyr weld yr Aeleg fel rhan annatod o fywyd yn y gogledd-orllewin a'r ynysoedd.

Yr hyn a ddyfeisiwyd gennym – gan ddilyn cyngor Bob – oedd dull 'integredig', sef gosod geiriau Gaeleg o fewn testun Saesneg mewn ffordd sy'n parchu'r iaith. Roeddem yn awyddus i ddenu'r darllenwyr i ddysgu mwy, i adnabod geiriau ac i ehangu eu gorwelion ieithyddol. Os nad oeddynt yn dymuno gwneud hyn, eu busnes hwy oedd hynny; nid pawb sy'n cymryd diddordeb mewn ieithoedd. Roedd yn bwysig, fodd bynnag, nad oeddem yn dyblygu

darnau mawr o destun. Ers hynny, mae'r rheol hon wedi cael ei phlygu a'i mireinio i gwrdd ag anghenion gwahanol safleoedd! Roedd ein hymdrech gyntaf yn Rosal yn Strathnaver, Sutherland – trefgordd 'Gliriad', lle y gorfodwyd y tenantiaid i adael er mwyn gwneud lle i'r defaid. Yma, penderfynwyd defnyddio dau ddull. Rhoddwyd y penawdau mewn Gaeleg a Saesneg, ond roedd y testun ar y panel yn cyflwyno geiriau neu ymadroddion Gaeleg, mewn lliw gwahanol, ochr yn ochr (lle'r oedd angen) â'r Saesneg. Dyma ddwy enghraifft:

... We can plant *buntàta*potatoes, which we rely on so much, sow the *eòrna*barley or sow *corc*oats for *brochan*porridge ...

... They care nothing for the *Gàidhealtachd*, our ways, our people, our language and *ar beathannan*our lives. *Mo mallachd aig na caoraich mhòr* - my curse on the big sheep.

Rhoddwyd y geiriau hyn yng ngenau dau denant a yrrwyd o'u cartrefi a 'gofnododd' bleserau bywyd yn Rosal, a'i helbulon, ar ddeuddeg panel 'misol'.

Gwnaethom rywbeth cyffelyb gyda'r testun yn Airigh Fhionndail yn Sunart, Argyll, ond mae'r penawdau Saesneg yn adleisio strwythur yr Aeleg; roedd hyn yn ddull arall o 'integreiddio', er enghraifft:

Fàilte gu coille nan darach ann an airigh fhionndail
os cionn abhainn sròn an t-sithein
Welcome to the wood of oak trees on the shieling of the white meadow above the river of the ridge of the fairy hill

Roedd y bobl leol - gan gynnwys un o gefnogwyr brwd y diwylliant Gaeleg - yn cymeradwyo'r testun - bydd siaradwyr Cymraeg yn gyfarwydd â'r gystrawen. Gyda llaw, yn ddiweddar, a chyda chymorth lleol, aethom ati, yn ysgafngalon a difalais, i barodio enw Llanfairpwllgwyngyll er mwyn cysylltu enwau pentrefi Cwm Ystwyth:

Cwmafonystwythsy'nsyrthiotrosgraigheibiogoedwigpentrefdiwydiant
collrhydpontceunanto'rhafodgerybwa

Defnyddir hyn fel is-bennawd ar y paneli dehongli a gomisiynwyd gan Steven Richards Price, Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Rydym yn deall bod y plant wrth eu bodd.

Yn ôl yn yr Alban, roedd ein gwaith yn Aoineadh Mòr, ym Morvern, Argyll, yn cynnig datganiadau cyflwyniadol yn y ddwy iaith, a ddefnyddiwyd wedyn fel penawdau, ynghyd â thestun Saesneg a Gaeleg integredig, ar 'arwyddion sach' a wasgarwyd ymhlith olion yr hen gartrefi.

The only shadow is the passing of a cloud on the hill
'S e sgoth a' dol seachad air a' bheinn an aon fhailes a chithear
The only sorrow is the weeping of a willow by the loch
'S e caoineadh seilich ri taobh an locha an aon bhròn a chluinnear

Mae'r gwaith hwn wedi plesio ymwelwyr, ac wedi gosod cynsail ar gyfer comisiynau dilynol. Roedd un o'r rhain yn Leitir Fura, yng Nghoedwig Kinloch ar yr Ynys Hir (Skye). Unwaith eto, gadawodd Bob Jones i mi grwydro a defnyddio mesur diodl cryptig. Y cyfrwng a ddefnyddiwyd oedd ei 'arwyddion signal' (paneli bach wedi'u gosod ar byst), sydd wedi cael eu hefelychu'n helaeth, a defnyddiwyd yr Aeleg ar y naill ochr a'r Saesneg ar y llall. Darparwyd y dehongliadau Gaeleg gan Gavin Parsons o Sabhal Mòr Ostaig, y Coleg Gaelaidd.

Dyma un o'm hoff gomisiynau, a derbyniwyd dau lythyr canmoliaethus a oedd yn gofyn pwy a ysgrifennodd yr Aeleg wreiddiol. Rwyf yn rhy swil i enwi'r awdur a awgrymwyd; yr oedd ei waith, serch hynny, yn ysbrydoliaeth.

Dyma un pâr allan o tuag 20 o benillion:

Ash
that Odin carved as his first Norseman,
rich in mystery, magic in healing, and
strong in millwheel axles,
lined a procession of humble,
wide-horned, destined cattle
for a lowland table.

Uinnsean,
a shnaigh Odin mar a chiad Lochlannach
làn dìomhaireachd, draoidheil gu leighis,
agus làidir ann an aisil roth a' mhuillin
na sreath, ri taobh triall de chrodh
leathann-adharcach dhan robh
bòrd gallda an dàin.

Mae hwn wedi bod yn ymarfer gwerth chweil, a chan fy mod ar hyn o bryd yn gweithio ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, mae'n berthnasol y tu hwnt i'r Ucheldiroedd. Yn achos Camlas Trefaldwyn, rydym yn awyddus i gynnig dwy fersiwn ychydig yn wahanol o storïau yn y ddwy iaith. Cadwch eich llygaid ar agor!

Nid wyf wedi sôn hyd yma am ddefnyddio'r Sgoteg, ond dyma un enghraifft, unwaith eto o un o goedwigoedd Bob, a dywedwyd wrthyf nad yw'r fersiwn Saesneg (yr ymddengys yr oedd ei hangen!) hanner cystal. Roedd y testun arall yn Saesneg yn unig.

The hoolet
The sanshach hoolet,
fae evenin's gray
Richt tae the verra skraich o day
Flichts ower the plantin,
gleg o ee;
A thraa-moose, aye,
wull fairly dee.

